Prif noddwr:

# Gweithgaredd poster ac ymgyrch

**Newid dy siwrne, newid dy ysgol**

## Amcanion

Deall sut gall teithio llesol fod yn fuddiol i ysgol.

Creu poster i annog mwy o bobl i ddefnyddio teithio llesol; gellid ei ddatblygu'n ymgyrch ehangach yn yr ysgol.

## Cynllun sesiwn

Anogwch drafodaeth ar sut gallai teithiau llesol gan ddisgyblion fod o fudd i'r ysgol.

Rhowch dasg i'r disgyblion greu poster sy'n egluro 1 ffordd neu fwy y gall teithio llesol helpu'r ysgol. Gellir defnyddio'r posteri a grëir gan y disgyblion yn newyddlenni'r ysgol neu gallech eu harddangos o amgylch yr ysgol, felly gadewch iddyn nhw wybod beth fydd y canlyniad terfynol, a phwy yw eu cynulleidfa darged ar gyfer eu poster neu eu hysgrifennu. Rydym hefyd wedi llunio rhestr wirio ysgrifennu perswadiol i ddisgyblion. Os bydd angen, caiff disgyblion wneud y gweithgaredd hwn mewn parau.

**Awgrym:** anfonwch eich posteri at bigwalkandwheel@sustrans.org.uk ddangos gwaith creadigol eich disgyblion.

### Amser

30–40 munud

### Adnoddau angenrheidiol

Papur a phinnau ysgrifennu

### Gweithgaredd unigol/grŵp

Y ddau

### Meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru

– Dyniaethau
– Leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
– Y Celfyddydau Mynegiannol

## Disgrifiad o'r estyniad

Gwyliwch yr enghreifftiau hyn o ymgyrchoedd a thrafodwch yr hyn sy'n gwneud ymgyrch da:

- This Girl Can
- Stori potel blastig gan Greenpeace

Anogwch y disgyblion i lunio ymgyrch teithio llesol y gellir ei rannu mewn gwasanaeth boreol yn yr ysgol, neu ei gyflwyno i gyngor yr ysgol. Anogwch ddisgyblion i fod yn greadigol; gallant wneud perfformiad, ysgrifennu cân neu ffilmio fideo.

Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban). © Sustrans 2024

Taflen waith disgyblion:

# Gweithgaredd poster ac ymgyrch

**Newid dy siwrne, newid dy ysgol**

Prif noddwr:

SCHWALBE

## Cyfarwyddiadau

Lluniwch boster i annog pobl yn yr ysgol i ddefnyddio teithio llesol.

O'r hyn rydych wedi'i ddysgu hyd yma, tybed sut fyddai cael mwy o bobl yn cerdded, beicio, sgwtera ac olwyno i'r ysgol o fudd i'r ysgol? Pa effaith fyddai'n ei gael?

**Ystyriwch:** Pa wahaniaeth fyddai cael llai o amgylch yr ysgol yn ei wneud?

Sut fyddai teithio'n egnïol yn gwneud i chi a'ch ffrindiau deimlo wrth gyrraedd yr ysgol?

Edrychwch ar ein cartŵn isod am syniadau ac awgrymiadau!




## Mynd ati i wneud poster trawiadol

- Gwnewch fersiwn bras neu sgets yn gyntaf cyn ichi wneud eich darn gorau o waith.
- Rhowch eich neges bwysicaf ar ben y dudalen.
- Sicrhewch fod eich ysgrifennu yn glir ac yn hawdd ei ddarllen.
- Dewiswch liwiau amlwg sy'n dal y llygad.
- Tynnwch luniau sy'n gwneud eich poster yn ddiddorol.
- Cadwch eich poster yn fyr ac yn syml. Os rhowch ormod o wybodaeth, efallai na fydd pobl yn ei ddarllen i gyd.

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

Taflen waith disgyblion:

# Gweithgaredd poster ac ymgyrch

**Newid dy siwrne, newid dy ysgol**

Prif noddwr: SCHWALBE



## Gweithgaredd estynnol

Gan feddwl yn ôl i'r poster a wnaethoch, meddyliwch am syniadau ar gyfer ymgyrch sy'n hyrwyddo ac yn pwysleisio manteision teithio'n llesol i'r ysgol. Gallai hyn fod ar ffurf fideo, cân neu berfformiad.

**Syniadau fideo/perfformiad:** Gallech ysgrifennu sgript fer a llunio bwrdd stori yn dangos beth fyddai'n digwydd yn y fideo.



Mae Sustrans yn elusen gofrestredig yn y DU rhif 326550 (Cymru a Lloegr) SC039263 (Yr Alban). © Sustrans 2024

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT